PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 24 Tachwedd 2022 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Martyn Hogg, Carol Holliday, Hugh Irving (Cadeirydd), Paul Keddie, Terry Mendies, Gareth Sandilands (Is-Gadeirydd) ac Andrea Tomlin

Roedd y Cynghorwyr Gwyneth Ellis, a Julie Matthews yn bresennol ar wahoddiad y Pwyllgor yn eu rôl fel Aelodau Arweiniol i gyflwyno'r adroddiadau o fewn eu portffolios.

Sylwedydd – Cynghorydd Elen Heaton.

HEFYD YN BRESENNOL

Gary Williams – Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes
Nicola Stubbins – Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau
Iolo McGregor – Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Emma Horan – Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Ann Lloyd – Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cymorth Cymunedol
Rhian Morrlle – Pennaeth Gwasanaeth Plant
David Solly – Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cymorth Cymunedol
Rhian Evans – Cydlynydd Craffu
Kath Jones/Nicola Hughes – Gwesteiwr Zoom, Gwe-ddarllediad
Sharon Walker – Gweinyddwr y Pwyllgor

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Alan Hughes a Diane King a hefyd oddi wrth Nicola Kneale, Pennaeth Dros Dro Gwella Busnes a Moderneiddio.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Gareth Sandilands fuddiant personol yn eitemau busnes 5 a 6, fel ymddiriedolwr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd).

3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys gyda'r Cadeirydd na'r Cydgysylltydd Craffu cyn dechrau'r cyfarfod.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 29 Medi 2022. Roedd yn:

<u>Penderfynwyd:</u> - derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2022 fel cofnod gwir a chywir o'r trafodion.

Ni chodwyd unrhyw faterion mewn perthynas â chynnwys y cofnodion.

5 DIWEDDARIAD HUNANASESIAD PERFFORMIAD, CHWARTER 2, 2022 I 2023

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad, ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Gwyneth Ellis, yr adroddiad Chwarter 2 Diweddariad ar Hunanasesiad Perfformiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch perfformiad y Cyngor yn erbyn ei swyddogaethau ar ddiwedd chwarter 2, 2022 i 2023, gan gynnwys amcanion y Cynllun Corfforaethol a Chydraddoldeb Strategol, a'r saith maes llywodraethu allweddol.

Mae adroddiadau rheolaidd yn un o ofynion monitro hanfodol Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor. Caiff adroddiadau perfformiad chwarterol eu rhannu'n rheolaidd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Cabinet a Phwyllgor Craffu Perfformiad, er mwyn cefnogi trafodaeth adeiladol ynghylch ein perfformiad a nodi ymyraethau, lle bo angen.

Cyflwynwyd yr adroddiad mewn dau ran i geisio amlinellu cynnydd yn erbyn y meysydd allweddol canlynol -

- **Amcanion Perfformiad** - yn cynnwys Amcanion y Cynllun Corfforaethol/ Cydraddoldeb Strategol.
- **Meysydd Llywodraethu** – Saith maes llywodraethu sydd wedi'u pennu ymlaen llaw gan y Canllawiau Statudol ar berfformiad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Roedd y gwerthusiad crynodeb wedi'i benderfynu gan statws o fesurau a phrosiectau i bob un o'r blaenoriaethau canlynol:

- **Tai**: Cafodd pawb eu cefnogi i fyw mewn cartrefi a oedd yn diwallu eu hanghenion
- **Clymu Cymunedau**: Roedd y Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da
- **Cymunedau Cryf**: Bu i'r Cyngor weithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid
- **Yr Amgylchedd**: Deniadol ac wedi'i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd
- **Pobl Ifanc**: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny
  Iechyd Corfforaethol: Roedd y Cyngor yn effeithlon, wedi'i reoli'n dda ac yn amgylcheddol gynaliadwy

Cynghorwyd yr Aelodau mai'r adroddiad a gyflwynwyd iddynt oedd yr adroddiad terfynol ar y Cynllun Corfforaethol 2017-2022. O hyn ymlaen bydd yr adroddiadau perfformiad yn ffocysu ar gyflwyniad a gweithrediad y Cynllun Corfforaethol newydd, rhwng 2022 - 2027.

Cafodd y pwyntiau canlynol eu crynhoi yn ystod y drafodaeth –

- Nifer uchel o unedau tai wedi'u clustnodi ar gyfer datblygiad dan y Cynllun Corfforaethol 2017-22 bron â'u cwblhau tuag at ddiwedd hyd fywyd y Cynllun.
- Nid oedd ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi o fewn yr adroddiad gan mai'r mater oedd mynd i'r afael â'r gwasanaeth perthnasol.
- Camdriniaeth Domestig - Bu gostyngiad o 34.3% yn nifer dioddefwyr eildro troseddau domestig yn Sir Ddinbych ym mis Gorffennaf, Awst a Medi 2022 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Gostyngodd y niferoedd o 405 i 266. Ar y cyfan, mae Gogledd Cymru wedi gweld gostyngiad o 7.5% mewn trais domestig gyda dioddefwyr eildro ar gyfer mis Gorffennaf i fis Medi . Mae nifer y rhai sy'n aildroseddu gyda thrais domestig hefyd wedi gostwng yn Sir Ddinbych o 33 y llynedd i 28 y flwyddyn hon, gostyngiad o 15.2%. Mae hyn yn debyg i'r darlun cyffredinol ar gyfer Gogledd Cymru sydd â gostyngiad o 8.1% ar gyfer yr un cyfnod.
- Cynhaliwyd 100 o asesiadau gofalwyr rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, gan ddod â chyfanswm y flwyddyn ariannol i 197 (cronnus ers mis Ebrill). Mae'r ffigwr, fodd bynnag, yn ostyngiad o 11% ar gyfer yr un cyfnod y llynedd (221). Dywedodd swyddogion efallai bod aelodau yn dymuno craffu'r maes penodol hwn yn fuan iawn.
- Mae'r data ar gyfer y cyfnod cyfartalog mae oedolion (65 oed a throsodd) yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl wedi gostwng o 1,059 (mis Ebrill i fis Mehefin) i 1,043 diwrnod ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf i fis Medi. Y ffigwr ar gyfer yr un cyfnod y llynedd oedd 1050 diwrnod.
- Roedd y data diweddaraf a gyhoeddwyd am gyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn Sir Ddinbych wedi gweld cynnydd sylweddol o £213m yn 2020 i £432m yn 2021. Er bod hyn yn is na'r ffigyrau cyn y pandemig (£552m yn 2019), mae'r cynnydd yn galonogol ac yn nodi gwydnwch y sector twristiaeth a'i arwyddocâd economaidd parhaus yn y sir.
- Blaenoriaeth Pobl Ifanc - Roedd dim ond un diweddariad i roi o fewn yr adroddiad i'r fframwaith data i Bobl Ifanc. Mae hyn yn berthnasol i 18 i 24 cyfrif hawlydd. Mae'r data ar gyfer mis Gorffennaf i fis Medi yn nodi ychydig o gynnydd yng nghyfrif hawlwyr Sir Ddinbych, yn awr yn 5.3% (i fyny o 4.9% ym mis Mehefin). Mae'r cynnydd yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol, gyda chyfartaledd Cymru a'r DU hefyd yn cynyddu. Rydym yn parhau i fod y tu ôl i gyfartaledd Cymru, sef 4.3% (i fyny o 4.1%). Nid yw cyfrif hawlwyr y DU wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig (a oedd yn is na Chymru yn y gorffennol), nawr yn 4.6%, (i fyny o 4.3% ym mis Mehefin). Byddai'r Cynllun Corfforaethol newydd yn ffocysu ar ffyrdd o gael pobl ifanc i'r math cywir o waith a llwybrau gyrfa.
- Mae dechrau gwaith wedi newid i fod "mewn perygl". Roedd y prosiect mewn perygl gan fod oedi parhaus i gyhoeddiad Y Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. Roedd hyn yn ddyledus ym mis Awst ond yn awr nid oed

disgwyl tan ddiwedd mis Hydref bellach. Ni chytunwyd ar unrhyw gyllid ychwanegol i gefnogi'r prosiect y tu hwnt i fis Rhagfyr, sy'n cyflwyno perygl y bydd staff yn colli swyddi. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod ar y trywydd cywir i gyflawni'r targedau presennol tan ddiwedd fis Rhagfyr 2022. Roedd y Tîm Gweithredol Corfforaethol y Cyngor wedi cytuno i bontio'r bwlch cyllid dros dro, tan fydd ffrydiau ariannu yn y dyfodol wedi'u sicrhau.

- Roedd yr ail ran o'r adroddiad yn egluro'r pwysau iechyd corfforaethol ar gyllid.
- Mae recriwtio a chadw staff yn fater parhaus. Dengys yr adroddiad cynhyrchiant a chynnydd y Cyngor. Roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu eisoes wedi gwneud cais am adroddiad gwybodaeth yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol ar recriwtio a chadw staff yn Sir Ddinbych, gyda'r bwriad o benderfynu os oedd y maes hwn angen ei graffu'n fanwl.
- Cymunedau Cysylltiedig - Roedd BT Openreach wedi mynychu'r cyfarfod Pwyllgor Craffu yn y gorffennol ac awgrymwyd bod Swyddog Digidol Sir Ddinbych yn mynychu cyfarfod yn y dyfodol.
- Mewn perthynas â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, cadarnhawyd bod y Cyfarwyddwr Rheoli Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn mynychu'r Pwyllgor Craffu Partneriaeth ar 15 Rhagfyr 2022 i drafod ei berthynas a gwaith gyda Chyngor Sir Ddinbych.
- Cytunodd yr Aelodau ddarparu rhagor o wybodaeth i aelodau ar ohiriad y Polisi Dyrannu ar gyfer Tai Cymdeithasol ac ar ganran gwariant diweddar y Cyngor gyda chyflenwyr o fewn Sir Ddinbych.

Eglurodd awduron yr adroddiad hwn na ellir defnyddio darluniadau a graffiau ayyb o fewn yr adroddiad oherwydd rheolau hygyrchedd. Fodd bynnag, mae'r fframwaith perfformiad newydd sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i gefnogi'r Cynllun Corfforaethol newydd yn gyfle i swyddogion i archwilio gyda chydweithwyr cyfathrebu'r ffyrdd gwahanol o adrodd data, megis ailgyflwyno statws lliw a dadansoddiad tueddiadau. Byddwn yn ceisio mewnbwn Aelodau drwy adroddiadau yn y dyfodol.

Ar ddiwedd trafodaeth fanwl ar y materion a godwyd o fewn yr adroddiad diweddaru Hunanasesu Perfformiad, anogodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfeirio at feysydd a oedd yn achosi pryder penodol iddynt i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ystyried fel pynciau posibl yn y dyfodol ar gyfer eu craffu'n fanwl. Felly:

<u>Penderfynodd y Pwyllgor</u>: - yn amodol ar y sylwadau uchod –

(i) i dderbyn cynnwys yr adroddiad Diweddaru Hunanasesu Perfformiad ar gyfer Chwarter 2 2022 tan 2023; a

(ii) Bod yr aelodau yn llenwi ffurflenni cynnig craffu ar unrhyw feysydd o bryder a'u cyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu i'w hystyried i'w cynnwys yn y rhaglen waith i'r dyfodol y pwyllgor craffu ar gyfer archwiliad manwl yn y dyfodol.

6 ADOLYGIAD O'R GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL, MEDI 2022

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Julie Matthews yr adroddiad i roi diweddariad ar yr Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, mis Medi 2022.

Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet sydd yn datblygu a pherchen ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Caiff ei hadolygu ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet yn ystod sesiwn Friffio'r Cabinet.

Yn dilyn pob adolygiad, caiff y gofrestr ddiwygiedig ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac unwaith bob blwyddyn, i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Eglurodd swyddogion rôl a ffocws gwahanol pob Pwyllgor mewn perthynas â'r Gofrestr Risg.

Crynhodd y Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Emma Horan, y risgiau o fewn yr adroddiad fel a ganlyn -

- Risg 01: Roedd y risg o wall diogelu neu ymarfer difrifol, ble roedd gan y Cyngor gyfrifoldeb, gan olygu niwed difrifol neu farwolaeth, wedi cynyddu yn ei sgôr cynhenid (A1 - Risg Critigol Bron yn Sicr / Effaith uchel iawn) a'i sgôr gweddilliol (A1 - Risg Critigol Bron yn Sicr / Effaith uchel iawn). Cafodd sgôr y risg ei gynyddu ar sail asesiad fod y siawns o hyn yn digwydd yn uwch ar hyn o bryd nag oedd yn flaenorol. Er nad yw'r Cyngor yn ystyried y tebygolrwydd fel "bron iawn yn sicr o ddigwydd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau" (sef y diffiniad o Debygolrwydd Risg A yn methodoleg risg yr awdurdod), mae'r risg yn sicr wedi cynyddu. Felly teimlir ei bod yn briodol i gynyddu'r sgôr Tebygolrwydd Risg, ac roedd hynny'n golygu ei gynyddu o B i A. Mae cynyddu sgôr y risg yn galluogi i'r risg i gael ei flaenoriaethu a'i uwch gyfeirio ymhellach, sy'n teimlo'n briodol ac yn angenrheidiol ar hyn o bryd.
  Nodwyd bod y Tîm Gweithredol Corfforaethol (CET) wedi cynnal adolygiad o Risg 01. Byddai Tîm Gweithredol Corfforaethol yn adolygu'r risg hwn yn fisol, a byddai'r Cabinet yn derbyn diweddariad ar lafar bob mis yng Nghyfarfod Briffio'r Cabinet.
- Risg 12: Y risg o adroddiad(au) hynod o negyddol gan reoleiddwyr allanol. Roedd sgôr y risg wedi cynyddu i C3 - Risg Cymedrol: Effaith Posib / Canolig.
- Risg 36: Y risg bod yr amgylchedd economaidd ac ariannol wedi gwaethygu y tu hwnt i ddisgwyliadau cyfredol, a chafodd effaith niweidiol ar fusnesau lleol a chaledi economaidd i'r gymuned leol. Roedd y sgoriau risg cynhenid a gweddilliol wedi cynyddu.
- Risg 43: Y risg nad oedd gan y Cyngor y cronfeydd neu'r adnoddau i fodloni ei oblygiadau statudol o dan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Roedd y cynnig a amlygwyd yn adolygiad mis Medi 2022 i ddad-uwchgyfeirio'r risg hon i'w rheoli gan y Gwasanaethau Plant ac Addysg wedi'i gytuno gan y Cabinet mewn Cyfarfod Briffio Cabinet ar 14 Tachwedd, 2022.
- Risg 44: Y risg o Glefyd Coed Ynn (ADB) yn Sir Ddinbych yn arwain at achosion iechyd a diogelwch sylweddol a oedd yn cynrychioli risg posib i fywyd. Perchennog y risg yn awr oedd Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y

Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad. Ar sail gwybodaeth well, roedd y sgoriau risg cynhenid a gweddilliol wedi gostwng (ond yn parhau y tu hwnt i barodrwydd y cyngor i dderbyn risg).

- Risg 47: Roedd y risg y byddai Cydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CJC) newydd yn golygu bod gan y Cyngor llai o ddylanwad a rheolaeth ar lefel leol. Y cynnig oedd dad-uwchgyfeirio'r risg hwn er mwyn iddo gael ei reoli gan Wasanaeth(au). Roedd y cynnig a amlygwyd yn adolygiad mis Medi 2022 – i ddad-uwchgyfeirio'r risg hwn i'w rheoli gan y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd – wedi'i gytuno gan y Cabinet yng nghyfarfod Briffio'r Cabinet ar 14 Tachwedd, 2022.

Yn ystod trafodaethau codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd effaith gronnus materion recriwtio a chadw ym maes gofal cymdeithasol yn effeithio'n sylweddol ar allu'r Cyngor i gyflawni swyddogaethau gofal cymdeithasol statudol. Roedd yna argyfwng recriwtio a chadw cenedlaethol ym maes gofal cymdeithasol. Roedd gofal cymdeithasol yn aml yn colli staff oherwydd y tâl ac amodau gwell a gynigir gan asiantaethau recriwtio, awdurdodau lleol eraill a'r Bwrdd Iechyd, yn aml ar gyfer rolau tebyg ond llai beichus. Yn aml roedd gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ond yn gallu disodli staff profiadol gyda gweithwyr newydd gymhwyso neu ddibrofiad a oedd angen cymorth sylweddol ac nad oeddent yn gallu gweithio'n annibynnol gyda'r achosion cynyddol gymhleth a gyfeiriwyd at y gwasanaeth. Roedd llawer o ddechreuwyr newydd yn staff iau, newydd gymhwyso ac roedd cyfraddau absenoldeb mamolaeth mewn rhai timau yn uchel. Roedd effaith Covid-19 yn symudiad sylweddol yn y gweithlu oddi wrth ofal cymdeithasol ac iechyd. Roedd llai o weithwyr cymdeithasol yn ymuno â'r proffesiwn nag oedd yn gadael. Roedd y farchnad yn hynod gystadleuol ac nid oedd strwythur tâl cenedlaethol ar waith yn y sector.
  Ar yr un pryd, roedd llwyth achosion yn cynyddu ac yn dod yn fwy cymhleth. Roedd risg na fyddai pobl yn cael eu cefnogi, neu nad oeddent yn cael eu gweld â'r dwyster cywir. Roedd hyn yn effeithio ar allu gwasanaethau gofal cymdeithasol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol a oedd yn rhoi mwy o bwysau ar staff ac yn effeithio'n negyddol ar eu lles ac yn achosi lefelau uwch o absenoldeb heb ei gynllunio. I gefnogi trafodaeth ar y gofrestr risg, cyflwynodd swyddogion o'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Plant trosolwg byr ar nifer y rolau mewn gwahanol dimau a rhywfaint o wybodaeth am swyddi gwag. . Gofynnwyd i'r wybodaeth fanwl am staffio a swyddi gwag o fewn timau gofal cymdeithasol a ddarparwyd yn y dyfodol gael ei rhannu o ran Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Roedd mater recriwtio a chadw staff yn broblem genedlaethol. Roedd y broblem y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod Lleol. Roedd cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda Llywodraethau Cymru a'r DU i drafod y pryderon a sut yr oedd y risg wedi cynyddu. Roedd cyfarfodydd mewnol yn cael eu cynnal yn cynnwys y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Arweinydd a'r Aelodau Arweiniol. Bu rhywfaint o symudiad yn y dyfodol ar femorandwm drafft, a oedd yn cael ei arwain gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Amlinellodd swyddogion Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion y gweithdrefnau a'r amserlenni yr oeddent yn cadw atynt pan oeddent yn derbyn atgyfeiriadau at eu Gwasanaethau.

Amlinellwyd hefyd yr holl ddulliau yr oeddent wedi'u defnyddio i geisio recriwtio gweithwyr ar bob lefel a'r berthynas waith da oedd ganddynt ag ysgolion, colegau a phrifysgolion lleol. Roedd telerau ac amodau cenedlaethol yn fater o fewn gallu LlC, a oedd wedi sefydlu fforwm i archwilio'r potensial o sefydlu telerau ac amodau cenedlaethol.

- Risg 45 – y risg bod y Cyngor yn methu â dod yn gyngor di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Gan fod y risg yn B2 – Risg Critigol: Tebygol/Uchel, gofynnodd yr aelodau a oedd trefniadau cadarn ar waith i sicrhau ein bod yn bodloni'r targed. Eglurodd swyddogion ein bod wedi ymrwymo i adolygu ein rhaglen ar ôl dwy flynedd i fapio buddion yn erbyn adnoddau. Bydd yr adolygiad hwn yn darparu tystiolaeth ynghylch a ydym, yn seiliedig ar yr ymdrech a'r cynnydd a wnaeth hyd yma, ar y trywydd iawn i fodloni ein targed ar gyfer 2030.
- Risg 36 - y risg bod yr amgylchedd economaidd ac ariannol yn gwaethygu y tu hwnt i ddisgwyliadau cyfredol, ac yn cael effaith niweidiol ar fusnesau lleol a chaledi economaidd i'r gymuned leol. Gofynnodd yr aelodau sut yr oedd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB) yn cynorthwyo gyda hyn. Cadarnhawyd bod adroddiad ar weithgareddau a pherfformiad y Bwrdd Uchelgais yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau bob chwarter. Pe bai'r aelodau'n teimlo bod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn haeddu cael ei wahodd i'r Pwyllgor Craffu yn gynharach na'i ymweliad blynyddol, dylid cyflwyno ffurflen gynnig er mwyn i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu ei hasesu.
- Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion ystyried ffyrdd o gyflwyno crynodeb risg, a allai gynnwys gwybodaeth am dueddiadau a statws mewn lliw, fel rhan o drafodaethau ynghylch cyflwyno gwybodaeth am berfformiad. Byddwn yn ceisio mewnbwn Aelodau drwy adroddiadau yn y dyfodol.

Ar y pwynt hwn, diolchwyd i'r Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad a'r Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad am eu hadroddiad manwl a'u cyflwyniad ac i'r Aelod Arweiniol a swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol am eu hymateb manwl i'r cwestiynau a godwyd.

Ar ddiwedd dadansoddiad a thrafodaeth drylwyr:

<u>Penderfynodd:</u> y Pwyllgor yn amodol ar y sylwadau uchod -

(i) ar ôl trafod y risgiau, y sgoriau a'r rheolaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol (Atodiad 1), gan gynnwys statws pob risg yn erbyn Datganiad Parodrwydd y Cyngor i Dderbyn Risg (Atodiad 2), a derbyn y diweddariad ar lafar a ddarparwyd ar newidiadau diweddar i'r datganiad parodrwydd i dderbyn risg, i dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth a ddarparwyd; a

(ii) gofyn i aelodau sydd â phryderon arbennig am risgiau penodol sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol ynghyd â'r rheolaethau sydd ar waith i reoli'r risgiau hynny eu huwch gyfeirio i gael ei harchwilio'n fanwl trwy gyflwyno ffurflen Cynnig Craffu gan Aelodau i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Grŵp Craffu.

7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu yr adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol). Roedd tair eitem wedi'u rhestru ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 26 Ionawr 2023 –

(i) Crist y Gair – Ymateb i Arolwg Estyn
(ii) Gofal Iechyd Cefndy a Gwerthusiad Opsiynau ar gyfer cyflwyno busnes yn y dyfodol
(iii) Safonau Gwasanaeth Llyfrgell 2021/2022

Awgrymwyd, gan y byddai eitemau (i) a (ii) yn drafodaethau sylweddol, y dylid gohirio eitem (iii) Safonau Gwasanaeth Llyfrgell 2021/2022 tan y cyfarfod a gynhelir ar 16 Mawrth 2023. Cytunodd yr holl aelodau oedd yn bresennol i'r newid hwn i'r Fforwm. Rhaglen Waith.

Roedd cyfarfod nesaf y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu i'w gynnal ar 24 Tachwedd 2022.

Roedd Atodiad 2 yn cynnwys copi o'r ffurflen Cynnig Aelodau
Atodiad 3 i'r adroddiad oedd gwaith i'r dyfodol y Cabinet.
Atodiad 4 – hysbyswyd yr aelodau o'r argymhellion a wnaed yn y cyfarfod Craffu blaenorol.

Roedd yn:

Penderfynwyd: - yn amodol ar wneud ymholiadau gyda Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Sir, i'r posibilrwydd o aildrefnu cyflwyniad ei adroddiad Safonau Gwasanaeth Blynyddol o fis Ionawr i fis Mawrth 2023, cadarnhau rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor, sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad.

8 ADBORTH GAN CYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Dywedodd y Cadeirydd, fel cynrychiolydd y Pwyllgorau Craffu ar Fwrdd Prosiect Adeiladu'r Frenhines, fod gwaith adeiladu wedi dechrau'n ddiweddar ar y sylfeini ar gyfer y cyfleuster newydd.

Y Pwyllgor:

Penderfynwyd: - derbyn yr adborth a ddarparwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05pm